John Roberts, Ieuan Gwyllt, 1822–77
Cerddor, golygydd a gweinidog (MC)

Yn ystod y 19eg ganrif bu diwygiad cerddorol yng Nghymru ymhlith yr Ymneilltuwyr. Prif ganlyniad y diwygiad hwn oedd gweddnewidia mewn tonau ar gyfer emynau a gwelliant mewn canu cynulleidfaol. Ymhlith nifer o gymeriadau eraill, yr oedd Ieuan Gwyllt yn un o'r bobl allweddol yn y datblygiad hwn.

Deuai yn wreiddiol o Tanrhiwfelen ger Aberystwyth, tŷ bychan uwchben Pwllcenawon, hen gartref Lewis Edwards y Bala. Ganwyd ef ar 27 Rhagfyr 1822 yn ail o chwech o blant Evan ac Elizabeth Roberts. Magwraeth dlawd a gafodd gan mai gogrwr oedd ei dad, ond magwraeth Gristnogol gan fod ei rieni'n mynychu capel Seion a'i dad yn godwr canu yno. Yn fuan symudodd y teulu i Ty'nffordd ac yn ddiweddarach i Pistyllgwyn, Dyffryn Melindwr. Fe gafodd addysg yn ysgol Lewis Edwards (Cefnder Lewis Edwards, y Bala) ym Mhen-llwyn, dysgodd forwriaeth gyda D. Griffiths, mesuriaeth gyda John Jones, Capel Dewi a chaboli'r ddwy wyddor wrth draed John Evans, Aberystwyth. Cedwid ysgol Sul ar gylch yn ffermydd y dyffryn ac yno y dysgodd ddarllen. Ymddiddorai mewn cerddoriaeth yn ifanc ac ymddangosodd ei dôn 'Hafilah' yn *Yr Athraw* ym 1839.

Mabwysiadodd John Roberts y ffugenw Ieuan Gwyllt Gelltydd Melindwr, gan ei dalfyrru i Ieuan Gwyllt. Pan oedd yn bymtheg oed bu'n cadw ysgol yng Ngoginan, Tŷ-nant a Thanrhiwfelen yn ogystal ag ysgol ganu yn y gymdogaeth, gweithiodd am ddwy flynedd gyda fferyllydd yn Aberystwyth. Cafodd swydd fel athro ysgol Skinner Road yn y dref, ond cyn iddo gychwyn ar y gwaith derbyniodd hyfforddiant yng Ngholeg Normal, Borough Road, Llundain. Wedi naw mis rhoddodd y ffidil yn y to fel athro a'r gred yw nad oedd yn ddisgyblwr da. Aeth yn glerc gyda'r cyfreithwyr Hughes a Roberts cyn mynd i Lerpwl fel is-olygydd *Yr Amserau* gyda William Rees (Hiraethog) o 1852 i 1858. Yn y cyfnod hwn dechreuodd bregethu gan draddodi ei

bregeth gyntaf yn Runcorn. Cyhoeddodd *Blodau Cerdd* a oedd yn cynnwys gwersi cerddorol a thonau, ac aeth ati i ddewis a dethol casgliad o donau a fyddai'n addas ar gyfer canu cynulleidfaol.

Ymddangosodd ei gasgliad *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* ym 1859 ac yr oedd y llyfr hwn yn gychwyn ar bennod newydd mewn canu cynulleidfaol yng Nghymru. Trefnodd nifer fawr o'r tonau a chyfansoddodd lawer o rai gwreiddiol, megis ei dôn 'Moab'. Bu gwerthiant mawr ar y gyfrol ac erbyn 1863 yr oedd 17 mil o gopïau wedi ei gwerthu.

Dechreuodd ddarlithio ar gerddoriaeth, canu corawl a chynulleidfaol er mwyn annog eglwysi Cymru i wella safon eu cerddoriaeth. Sefydlodd Wyliau Cerddorol Gwent a Morgannwg, Eryri ac Ardudwy, a dywedid mai ef oedd tad y cymanfaoedd canu cynulleidfaol. Symudodd i Aberdâr i olygu *Y Gwladgarwr* a bu yno am dair blynedd. Ym 1859 priododd â Jane Richards o Aberystwyth yng nghapel Jewin Crescent yn Llundain. Derbyniodd alwad i fugeilio eglwys Pant-tywyll, Merthyr, ac fe'i hordeiniwyd yng Nghymdeithasfa Castellnewydd Emlyn 1861. Bu hefyd yn weinidog ar y Capel Coch, Llanberis. Golygodd *Telyn y Plant* a esblygodd yn T*rysorfa y Plant*, *Y Cerddor Cymraeg*, *Cerddor y Tonic Solffa* a'r *Goleuad*. Ef oedd ysgrifennydd Llyfr Emynau y Methodistiaid Calfinaidd an ym 1874 cyhoeddodd Sŵn y Juwbili, sef casgliad o emynau Sankey a Moody yn y Gymraeg. Ymddeolodd i'r Fron, Llanfaglan, ger Caernarfon, a bu farw ar 14 Mai 1877. Claddwyd ef ym mynwent Caeathro ger Caernarfon.